**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Atal Hunanladdiad**
**Dydd Mawrth 2 Gorffennaf 2019**
**12.20pm – 1.20pm**
**Y Pierhead, Ystafelloedd Seminar 1 a 2**

## 1. Croeso a chyflwyniad

Agorodd Lynne Neagle AC y cyfarfod a diolchodd i bawb am ddod. Fe wnaeth Lynne gydnabod y gallai peth o destun trafod y cyfarfod beri gofid i rai, a dywedodd fod croeso i'r rhai sy'n bresennol i gamu allan a chael seibiant os oes angen, a gofyn am gymorth yn dilyn y cyfarfod os oes angen. Fe wnaeth Lynne groesawu Dr Dai Lloyd AC i'r cyfarfod.

## 2. Trefniadau gweithredu'r grŵp

Esboniodd Sarah Stone y broses ffurfiol ar gyfer sefydlu'r grŵp, sy'n cynnwys ethol cadeirydd ac ysgrifenyddiaeth a phennu amcanion y grŵp. Mae hefyd angen i'r grŵp gadarnhau ei aelodaeth ac mae angen cynrychiolaeth o dair plaid wleidyddol o leiaf. Cadarnhawyd yr holl fynychwyr fel aelodau o'r grŵp.

Etholwyd Lynne Neagle AC yn gadeirydd y grŵp yn dilyn pleidlais. Etholwyd Samaritans Cymru yn ysgrifenyddiaeth yn dilyn pleidlais. Ychwanegodd Lynne y caiff dyddiadau'r cyfarfodydd pellach eu dosbarthu a dywedodd y bydd angen i un o'r cyfarfodydd hyn fod yn gyfarfod cyffredinol blynyddol.

## 3. Pennu amcanion y grŵp

Dosbarthwyd copi o argymhellion adroddiad Busnes Pawb ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad cyn y cyfarfod. Diolchodd Lynne i Dai Lloyd AC am adroddiad Busnes Pawb. Esboniodd Lynne ei bod yn awyddus i'r grŵp hwn gael ei ddefnyddio i lywio newid, a nodwyd bod y Grŵp Trawsbleidiol ar Atal Hunanladdiad yn San Steffan wedi bod yn effeithiol iawn. Ymunodd Jayne Bryant AC â'r cyfarfod.

Agorodd Lynne y drafodaeth i'r aelodau am amcanion y grŵp. Ymunodd David Melding AC â'r cyfarfod.

Awgrymodd yr aelodau yr amcanion a ganlyn ar gyfer y grŵp:

- nodi natur gyd-destunol hunanladdiad, gan gynnwys effaith ffactorau cymdeithasol fel anfantais economaidd-gymdeithasol;
- nodi dulliau gweithredu ôl-ymyrraeth a chydweithredol o ran y gefnogaeth a roddir i'r rheini sy'n galaru oherwydd hunanladdiad; ac
- y dylai'r grŵp fod yn ymwybodol o'i rôl fel grŵp trawsbleidiol ac edrych ar yr enghreifftiau mwyaf effeithiol o grwpiau o'r fath yn gwneud cyfraniad cadarnhaol. Dylid gosod rhaglen waith a ffocws. Mae'r grŵp yn ffordd o roi gwybod i'r holl bartïon am y mater a gallai lunio adroddiadau am feysydd pryder, yn ogystal â chraffu ar gynnydd o ran ymrwymiadau'r llywodraeth.

## 4. Rhaglen waith y grŵp trawsbleidiol

Gofynnodd Lynne a oedd unrhyw feysydd eraill yr hoffai'r aelodau ganolbwyntio arnynt.

Awgrymodd yr aelodau y dylai'r grŵp ganolbwyntio ar y meysydd gwaith a ganlyn:

- yr effaith y caiff hunanladdiad ar ysgolion, colegau a gweithleoedd a gwella'r gefnogaeth i'r rheini sydd wedi bod yn dyst i hunanladdiad neu wedi canfod rhywun sydd wedi cyflawni hunanladdiad;

- y stigma sy'n gysylltiedig â hunanladdiad;
- gwelliannau wrth rannu gwybodaeth ac arfer gorau;
- y cysylltiad rhwng camddefnyddio sylweddau a hunanladdiad;
- ymateb cyntaf digonol a chydgysylltiedig i'r rhai sydd mewn trallod (gan gynnwys meddygon teulu ac adrannau damweiniau ac achosion brys);
- y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys seiberfwlio, a'r effaith y gall yr amgylchedd ar-lein ei chael ar deuluoedd mewn galar;
- effeithiau andwyol dieithrio ac ynysu cymdeithasol ar unigolion a'u rôl o ran cynyddu'r risg o hunanladdiad;
- dynion a phobl ifanc fel grwpiau risg uchel;
- diffyg cefnogaeth i'r rheini sydd mewn galar oherwydd hunanladdiad;
- gwella'r prosesau ar gyfer atal hunanladdiad 'clwstwr' neu 'gopïo';
- hyfforddiant i feddygon teulu ar sut i ymateb i bobl sydd mewn trallod a sut i atgyfeirio at gymorth;
- craffu ar ba gamau sy'n cael eu cymryd ar argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad Busnes Pawb;
- cyfleoedd y cwricwlwm newydd;
- y cysylltiad rhwng tlodi a hunanladdiad;
- gwella gofal fel cleifion i'r rheini sydd mewn argyfwng;
- rhaglenni dadwenwyno a rheoleiddio'r anghenion diogelwch cysylltiedig;
- cymunedau gwledig a ffermwyr fel grŵp risg uchel;
- gwella dull ataliol drwy gyfyngu ar fynediad at ffyrdd o hunanladdiad, gan gynnwys y diwydiant peirianneg; a
- goblygiadau poblogaeth sy'n heneiddio i'r risg o hunanladdiad.

Esboniodd Dai Lloyd AC y bydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn gwneud gwaith dilynol ar adroddiad Busnes Pawb ac y bydd adolygiadau'n parhau chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad ac yna bob blwyddyn. Dywedodd David Melding AC mai'r grwpiau trawsbleidiol sy'n gweithio'n dda yw'r rhai sy'n defnyddio mecanweithiau'r Cynulliad, er enghraifft drwy geisio dadleuon a chodi cwestiynau. Hefyd, trafodwyd y posibilrwydd a'r cyfleoedd o weithio ar fil drafft.

Diolchodd Lynne Neagle AC i bawb am eu sylwadau a chytunwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn canolbwyntio ar brofedigaeth hunanladdiad a sut i wella gwasanaethau i'r rheini sydd mewn galar oherwydd hunanladdiad.

Cadarnhawyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ddydd Mawrth 22 Hydref 2019.

**Yn bresennol:**
Ana Laing, Samaritans
Andrea Gray, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Bleddyn Jones, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Caryl Stock, Prosiect Amber
Clair Harvey
Dai Davies, Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol
Dai Lloyd AC
David Melding AC
David Richards, Heddlu Gwent
David Williams, Rhwydwaith Cymunedol Ffermio
Paul Owen, yr Adran Gwaith a Phensiynau
Dr Miranda Barber, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Dr Nicole Burchett, y Sefydliad Iechyd Meddwl
Eddie Steinson, Conffederasiwn GIG Cymru
Emma Gooding, Samaritans Cymru
Emma Kneebone, 2 Wish Upon A Star
Gareth Davies, Tir Dewi
Gethin Matthews-Jones, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
Hannah Coyle, Network Rail
Janette Bourne, Gofal Galar Cruse Cymru
Jayne Bell, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Jayne Bryant AC
Jen Daffin Davies, Seicolegwyr dros Newid Cymdeithasol
Kate Heneghan, Papyrus
Laura Frayne, Samaritans Cymru
Laura Tranter, Canolfan Gymorth ACE
Lynne Neagle AC
Margaret Jones, Samaritans
Nicola Abraham, Sefydliad Jacob Abraham
Yr Athro Ann John, Prifysgol Abertawe
Yr Athro Keith Lloyd, Prifysgol Abertawe
Rebecca Frohwein, Hafal
Rebecca Jackson, Suicide Bereavement UK
Rob Palmizi, Cyngor ar Bopeth Cymru
Rob Williams, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon
Ruth Coombs, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Sarah Stone, Samaritans Cymru
Simon Jones, Mind Cymru
Tom Dyer, Gofal Canser Tenovus